Dinas a Sir Abertawe
City and County of Swansea

# YSGOL GYMRAEG BRYNIAGO

YSGOL BRYNIAGO

BUDDSODDWYR MEWN POBL

**Stryd Iago**
**Pontarddulais,**
**Abertawe,**
**SA4 8JA**
☎ (01792) 882012
Ffacs: (01792) 881496
*E-Bost: YGG.Bryniago@swansea-edunet.gov.uk*

**Pennaeth**
MISS NIA JONES


Annwyl Riant/Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn gyfraith ar 25 Mai 2018. Mae'r GDPR yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus a busnesau nodi'r sail gyfreithlon dros storio data personol, archwilio gwybodaeth sydd eisoes gennym a mabwysiadu ymagwedd 'diogelu data yn fwriadol ac yn ddiofyn' at ddata personol. Mae hefyd yn cyflwyno hawliau newydd i unigolion mewn perthynas â data personol, megis yr hawl i ddileu neu gywiro.

Fel ysgolion, rydym yn casglu ac yn prosesu llawer o ddata amdanoch chi, eich plentyn, a'n staff, ac mae'n rhaid sicrhau bod gennym weithdrefnau cadarn er mwyn gwneud hyn.

Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i storio a phrosesu peth o'r data rydym yn ei gasglu, felly nid oes angen caniatâd arnom i wneud hyn. Fodd bynnag, defnyddir peth o'r data rydym yn ei gasglu i hwyluso systemau penodol, er enghraifft gyfathrebu trwy sQuid neu Class Dojo. Gan nad oes gofyniad cyfreithiol i ddefnyddio'r systemau penodol hyn, bydd angen eich caniatâd penodol arnom ar gyfer pob system er mwyn cydymffurfio. Nid yw'r system 'caniatâd tybiedig' yn ddigonol mwyach.

Er enghraifft:
**Nid oes** angen i ni gael eich caniatâd i gasglu data ar gyfer ein System Rheoli Gwybodaeth am Ysgolion (SIMS), dyddiadau geni, cyfeiriadau, a data academaidd er mwyn creu a chynnal cofnodion disgybl. Mae'r sail gyfreithlon ar gyfer unrhyw system sy'n allweddol i ddarparu addysg a chadw plant yn ddiogel yn rhwymedigaeth gyfreithiol.
Fodd bynnag, **bydd** angen eich caniatâd arnom i ni gasglu data ar gyfer defnyddio llun eich plentyn ar Class Dojo. Mae'r math hwn o system yn un sy'n 'braf i'w gael' yn lle system sy'n gwbl angenrheidiol. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y systemau hyn sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, lluniau/fideos a chyfathrebu gyda rhieni'n bennaf yn defnyddio caniatâd. Bydd hefyd angen eich caniatâd arnom i anfon ein cylchlythyr rheolaidd atoch gan y gall hon gynnwys gwybodaeth er mwyn hyrwyddo ein gweithgareddau codi arian trwy'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu weithgareddau eraill.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio a bod y data rydym yn ei gadw am eich plentyn yn gyfredol, byddwn yn anfon Pecyn Derbyniadau newydd adref. Yn y pecyn hwn, bydd taflen casglu data a ffurflenni caniatâd wedi'u diweddaru ar gyfer y pethau lle bydd angen eich caniatâd arnom. Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r Pecyn Derbyniadau ar gyfer pob plentyn oherwydd bydd y pecyn yn aros gydag ef yn ystod ei amser yn y Cyfnod Sylfaen neu yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddwn yn gofyn i chi gwblhau'r pecyn hwn unwaith yn ystod pob cyfnod allweddol yn unig; unwaith pan fydd y plentyn yn dechrau'r ysgol, ac unwaith pan y bydd yn symud o'r Cyfnod Sylfaen i CA2.